Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

## Dewis ISP

Mae’r rhyngrwyd wedi gweddnewid busnes – ond pa un a ydych yn gwerthu nwyddau trwy wefan e-fasnach, yn darparu gwasanaeth ar-lein eich hun, neu ddim ond yn anfon negeseuon e-bost a phori’r we, bydd y manteision a ddaw i ran eich busnes yn sgil y Rhyngrwyd yn dibynnu i raddau helaeth ar eich dewis o Gyflenwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISP).

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Dewis ISP

Mae'r rhyngrwyd wedi gweddnewid busnes – ond pa un a ydych yn gwerthu nwyddau trwy wefan e-fasnach, yn darparu gwasanaeth ar-lein eich hun, neu ddim ond yn anfon negeseuon e-bost a phori'r we, bydd y manteision a ddaw i ran eich busnes yn sgil y Rhyngrwyd yn dibynnu i raddau helaeth ar eich dewis o Gyflenwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISP).

Eich ISP yw'r cwmni sy'n darparu'r ddolen sy'n eich cysylltu â'r Rhyngrwyd. Mae ISP yn darparu gwasanaeth technegol, a phan fydd pethau'n mynd yn iawn, ni ddylai'r gwasanaeth hwnnw fod yn weladwy i chi a'ch tîm. Nid oes angen ichi wybod beth yn union mae'n wneud a sut mae'n gwneud hynny, yn union fel nad oes angen ichi ystyried pwerdai a llinellau trawsyrru trydan i fod yn hyderus y gwnaiff y trydan weithio pan fyddwch yn pwyso switsh.

Fodd bynnag, os na fydd pethau'n mynd yn iawn ar ochr eich ISP, gall fod yn rhwystr poenus a all atal eich defnydd o'r Rhyngrwyd. Felly mae'n bwysig gwneud y dewis iawn yn y lle cyntaf, ac mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar hynny.

> Byddai 45% o bobl yn yr UE yn newid eu ISP pe bai angen hynny i gael cysylltiad cyflymach â'r Rhyngrwyd.
> (Ffynhonnell: Y Gymuned Ewropeaidd)

## Deall

### Trosolwg o ISPs

Os anfonwch e-bost at John, mae'n wir dweud y bydd yn derbyn yr un e-bost, waeth pa ISP a ddefnyddiwch. Yn yr ystyr hwnnw, mae pob ISP yn darparu'r un gwasanaeth sylfaenol.

Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mawr yn ansawdd y gwasanaeth (er enghraifft, cyflymder a dibynadwyedd), cymorth i gwsmeriaid a nodweddion ychwanegol fel lletya gwefannau.

Felly, er y gallwch gysylltu â'r Rhyngrwyd cyfan trwy unrhyw ISP, heb os nac oni bai, nid ydynt oll yr un fath.

### Gwahanol fathau o ISP

Darparu gwasanaeth rhyngrwyd yw unig fusnes rhai ISPs (y rhai llai yn bennaf). Mantais hyn yw gwasanaeth personol iawn gan amlaf; er enghraifft, os bydd gennych broblem dechnegol, efallai byddwch yn siarad â'r peiriannydd sy'n gyfrifol am ddatrys y broblem, nid rhywun mewn canolfan alwadau.

Anfantais yr ISPs bychan arbenigol hyn yn aml iawn yw diffyg adnoddau enfawr y cwmnïau mwy. Mae’r ISPs eraill (y rhai mawr) yn cynnwys cwmnïau ffôn (llinellau tir a ffonau symudol) a chwmnïau teledu.

## Beth Ddylwn I Chwilio Amdano Wrth Chwilio Am ISP?

Mae'n debyg mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd yna ym mhrisiau’r mathau o ISP sy’n debygol o apelio at fusnesau llai. Mae’r gwasanaethau a gynigir, a’r math o wasanaeth a addewir, yn llawer iawn pwysicach. Bydd eich gofynion o ran yr ISP yn dibynnu, wrth gwrs, ar sut rydych yn bwriadu defnyddio'r Rhyngrwyd. Efallai bydd angen ichi ystyried y ffactorau canlynol:

### Lled band (cyflymder)

Bydd llawer o ISPs yn rhoi cyhoeddusrwydd sylweddol i’r ‘lled band’ a ddarperir ganddynt – yn ei hanfod, cyflymder eich cysylltiad â'r Rhyngrwyd. Mesurir hyn mewn megadidau fesul eiliad, a thalfyrrir hyn yn aml i Mbps.

Bydd lled band mwy yn golygu y gellir anfon a derbyn ffeiliau yn gyflymach, a bydd tudalennau gwe yn llwytho’n gyflymach ac ati (er bod ffactorau eraill ac eithrio lled band sydd tu hwnt i reolaeth yr ISP a all effeithio'n bositif neu'n negyddol ar berfformiad).

Bydd pwysigrwydd lled band i chi yn dibynnu mewn gwirionedd ar sut rydych yn bwriadu defnyddio'r Rhyngrwyd. Os byddwch yn anfon negeseuon e-bost a darllen tudalennau gwefannau yn bennaf, nid yw’n ystyriaeth bwysig y dyddiau hyn; gall unrhyw ISP ddarparu digon o led band i wneud hynny.

Fodd bynnag, os byddwch yn defnyddio llawer o fideos ar-lein ac yn anfon neu’n derbyn ffeiliau mawr, gall fod yn ystyriaeth hollbwysig. Hyd yn oed os nad ydych yn gwneud hynny ar hyn o bryd, efallai'n wir y byddwch yn y dyfodol. Mae nifer gynyddol o weithgareddau busnes yn symud i amgylcheddau amlgyfrwng ar-lein (er enghraifft, ystyriwch sut mae cynadleddau fideo ar-lein yn disodli cyfarfodydd yn y cnawd). Ar yr un pryd, mae bron iawn bob busnes yn cynhyrchu rhagor o ddata digidol. Mae’r ffactorau hyn yn golygu fod eich gofynion o ran lled band bron iawn yn sicr o gynyddu.

Mae’r genhedlaeth ddiweddaraf o fand llydan, a elwir yn Fand Llydan Cyflym Iawn, yn cael ei diffinio fel un sy’n cynnig cyflymder o 25Mbps neu ragor –a llawer mwy mewn rhai achosion. Os gallwch gael hyn yn eich ardal ac os na wnaiff gostio gormod, bydd yn fuddsoddiad gwerth chweil.

## Rhagor am led band

Dylech gofio fod y ffigyrau lled band a ddyfynnir yn neunyddiau cyhoeddusrwydd unrhyw ISP yn debygol o fod yn enghreifftiau o’r gwasanaeth gorau y gellir ei gael, ac efallai na fydd y

perfformiad arferol llawn cystal â hynny. Yn wir, mae astudiaeth wedi canfod y gallai ffigwr nodweddiadol fod mor isel â 45% o'r hyn a addewir, er bod rheolau ynghylch hysbysebion ISP s wedi newid ers cynnal yr astudiaeth honno. Felly holwch ddarpar ISP ynghylch y lled band a gaiff cwsmeriaid ar gyfartaledd.

Bydd rhai ISPs yn cyfyngu ar faint o ddata y gallwch eu llwytho i fyny neu i lawr o fewn cyfnod penodol. Sicrhewch fod y rhain gryn dipyn yn uwch na'ch defnydd arfaethedig. Os ydych yn bwriadu llwytho llawer o ffeiliau mawr i fyny (anfon) yn ogystal â'u llwytho i lawr (derbyn), mae'n werth nodi y gall y lled band sydd ar gael i lwytho i fyny fod yn llawer llai na'r hyn sydd ar gael i lwytho i lawr. Unwaith eto, gofynnwch am ffigyrau go iawn.

Ac os yw lled band yn bwysig ichi, gallwch hefyd ymholi ynghylch 'cyfradd ymrysoni' yr ISP - faint o gwsmeriaid sy'n gorfod rhannu un sianel i gysylltu â'r Rhyngrwyd ar yr un pryd. Mae cyfraddau is yn well; tua 20:1 yw'r cyfartaledd yn achos pecynnau busnes.

Yn olaf, cofiwch y gall y lled band a ddarperir i gwsmeriaid amrywio ar draws rhannau gwahanol o'r wlad, a gallant fod yn rhannol ddibynnol ar y seilwaith ffôn yn eich ardal. Mae hyn tu hwnt i reolaeth yr ISP unigol, ond dylai allu eich hysbysu beth sydd ar gael yn lleol.

# Mabwysiadu

## Dewis ISP

### Diffinio eich anghenion

Efallai fod y rhestr uchod o ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddewis ISP yn arswydus, ond efallai fod rhai ohonynt yn amherthnasol i chi. Er enghraifft, os nad ydych yn cael taliadau gan gwsmeriaid ar-lein ac os nad ydych yn bwriadu gwneud hynny, nid oes gwahaniaeth a yw ISP penodol yn darparu'r gwasanaeth hwnnw.

Felly mae'n hanfodol sefydlu'n glir sut mae'ch busnes yn defnyddio'r Rhyngrwyd heddiw, a sut ydych yn debygol o'i defnyddio yn y dyfodol – er enghraifft, dros y ddwy flynedd nesaf.

Os oes gennych weinyddwr rhwydwaith neu arbenigwyr TG, dylent allu cynnig ffigyrau go iawn ichi ynghylch defnydd presennol (er enghraifft, cymhariaeth o ofynion llwytho i fyny a llwytho i lawr). Fel arall, gallai arolwg anffurfiol o staff fod yn ddefnyddiol.

I sicrhau na chewch eich llethu gan y manylion lleiaf, gall dewis tri neu bedwar o feini prawf Blaenoriaeth o blith y rhestr uchod fod yn syniad da. Fe wnaiff hyn eich helpu i lunio rhestr fer o ISPs a wnaiff ddiwallu eich anghenion, ac yna, gallwch gwtogi'r rhestr fer ymhellach gan ystyried y ffactorau llai pwysig.

## Canfod gwybodaeth ac argymhellion

Mae nifer o adnoddau ar gael ar-lein i'ch cynorthwyo i ddewis ISP, megis byrddau trafod ble bydd pobl yn rhannu eu profiadau. Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod hon yn farchnad sy'n newid yn gyflym, ac efallai nad yw adolygiadau neu adroddiadau a gyhoeddwyd ychydig flynyddoedd yn ôl yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Yn aml iawn, argymhellion gan fusnesau eraill yn eich rhanbarth yw'r dulliau gorau o nodi ISPs addas, felly holwch eraill. Fodd bynnag, cofiwch y gall eu meini prawf hwy fod yn wahanol i'ch rhai chi, felly'r dull gorau yw troi at wefan pob ISP ac edrych yn fanwl ar fanylion y gwasanaethau a ddarperir gan bob un ohonynt, a gofyn am ragor o wybodaeth pan fydd angen hynny.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth am y farchnad ISPs yn gyffredinol, a darparwyr penodol.

# Ymelwa

### Lefelau gwasanaeth

Bydd pob ISP yn wynebu problemau'n achlysurol, sy'n golygu atal eu gwasanaeth dros dro. Dylech ofyn i ddarpar gyflenwyr pa mor aml fydd hyn yn digwydd trwy eu holi am eu 'amser mynd'– canran yr amser y bydd eu gwasanaeth yn gweithio'n iawn. Dylai hyn fod tua 99.9%.

### Diogeledd

A fydd eich ISP yn hidlo sothach a negeseuon e-bost digroeso eraill, ac os felly, pa mor effeithiol yw hynny? A yw'n cynnig unrhyw reolaethau ichi ynghylch sut defnyddir eich cysylltiad â'r Rhyngrwyd, er enghraifft, i atal staff rhag edrych ar wefannau anaddas? Pa mor hawdd a hyblyg yw'r offer rheoli a ddefnyddir i wneud hynny?

### Lletya gwefannau

Os oes gennych wefan, a oes angen unrhyw wasanaethau penodol i'w chynnal ac eithrio lletya tudalennau? Er enghraifft, efallai bydd arnoch angen cynnal cronfa ddata ar-lein, neu system taliadau.

Dyma un maes lle ceir y gwahaniaethau mwyaf rhwng ISPs, ac os yw eich gofynion yn gymhleth, gall hynny gyfyngu ar eich dewis o ISPs yn sylweddol (a chynyddu eich costau). Dylai'r sawl a ddatblygodd eich gwefan neu sy'n ei rheoli ar hyn o bryd allu'ch cynghori ynghylch yr union anghenion. Mae sicrhau fod pethau'n iawn yn hanfodol, neu fel arall, ni wnaiff eich gwefan weithio.

### Parthau

A fydd eich ISP yn lletya eich parth (e.e.eichcwmni.co.uk) trwy wneud eich gwefan yn weladwy i'r byd a'r betws, a thrafod traffig e – bost yr holl gyfeiriadau sydd gennych yn y parth hwnnw? A fydd arnoch angen iddo gofrestru parthau eraill? Faint yw'r taliadau a godir am letya a chofrestru?

## E-bost

A yw'ch cyfeiriadau e-bost yn defnyddio eich parth eich hun (john@eichcwmni.co.uk) neu barth yr ISP (john@eichcwmni.eichisp.co.uk), ac a oes cyfyngiadau ar y nifer y gallwch eu cael? Pa mor hawdd yw ychwanegu rhai newydd, newid cyfrineiriau ac ati?

Allwch chi gyrchu e-bost trwy ryngwyneb gwe, er enghraifft, pan fyddwch yn defnyddio cyfrifiadur cyhoeddus?

Cofiwch, os ydych eisoes yn defnyddio darparwr gwebost megis Gmail neu Outlook.com, gallwch barhau i'w defnyddio heb wneud unrhyw newidiadau.

## Cefnogaeth

Pa gefnogaeth a gynigir gan eich ISP pan aiff rhywbeth o'i le? Allwch chi gysylltu â rhywun ar ôl oriau gwaith, neu ar y penwythnos? A oes gwasanaeth rhadffôn? Pa mor hir fydd cwsmeriaid yn ei dreulio a r gyfartaledd yn disgwyl ateb i'w galwad? A allwch chi gael atebion i gwestiynau technegol a rhai'n ymwneud â'ch cyfrif ar-lein hefyd? Os bydd nam ar y caledwedd a gewch gan yr ISP, pa mor gyflym wnaiff yr ISP ddarparu offer newydd?

## Prisiau pecynnau

Fel rydym wedi dweud yn barod, nid yw costau gwirioneddol ISPs i fusnesau llai yn amrywio llawer, felly ni ddylai pris fod yn ystyriaeth bennaf. Fodd bynnag, mae'n werth holi sut yn union y codir tâl arnoch – er enghraifft, pa mor aml yr anfonir bil atoch – ac a oes unrhyw gostau cudd, yn enwedig costau ymlaen llaw am offer.

Os byddwch hefyd yn chwilio am ddarparwr gwasanaeth ffôn symudol neu linell tir neu ddarparwr gwasanaeth teledu wrth ddewis ISP, mae nifer o becynnau ar gael sy'n cyfuno mynediad i'r Rhyngrwyd â'r gwasanaethau hyn.

## Symud yno a symud ymlaen

Pa mor hawdd yw cychwyn defnyddio ISP, a faint o amser sydd ei angen i wneud hynny? Dylai'r agweddau technegol fod yn hawdd – fel arfer, bydd eich ISP yn anfon blwch o'r enw llwybrydd atoch, a byddwch yn ei gysylltu i'ch cyfrifiadur neu'r rhwydwaith, ac yna â'r llinell ffôn.

Fodd bynnag, gall cymhlethdodau ac oedi ddigwydd os bydd arnoch angen trosglwyddo enwau parthau i ISP newydd, ac mae'n werth holi i sicrhau y gwnânt ofalu am yr holl waith gweinyddol ichi hefyd.

Yn yr un modd, rhag ofn yr aiff pethau o chwith gyd a'r ISP a byddwch yn dymuno troi at un arall yn y dyfodol, mae'n werth sicrhau y gellir gwneud hyn yn gymharol ddidrafferth, ac na fyddwch wrth ynghlwm wrth gytundeb tymor hir gormodol.

# Awgrymiadau Ardderchog

## Cofiwch fod eich defnydd o'r rhyngrwyd a'ch anghenion lled band yn debygol o gynyddu

Sicrhewch fod unrhyw gytundeb a sefydlwch gydag ISP yn gallu cyflawni eich anghenion nawr AC yn y dyfodol.

## Cymerwch ffigyrau perfformiad â phinsiad o halen

Cofiwch fod y ffigyrau a ddyfynnir gan ISPs yn enghraifft o'r gwasanaeth gorau y gellir ei ddarparu, felly peidiwch ag ofni gofyn faint o led band a gaiff cwsmeriaid ar gyfartaledd mewn gwirionedd.

## Peidiwch â dewis ISP ar sail y pris yn unig

Ystyriwch beth allai eich busnes golli pe bai ISP rhad ond isel ei ansawdd yn eich gadael heb gysylltiad â'r Rhyngrwyd am 24 awr.

## Gochelwch rhag cyfyngiadau ar ddefnydd

Efallai bydd rhaid ISPs yn cyfyngu ar faint o ddata y gallwch ei lwytho i fyny neu i lawr mewn cyfnod penodol, felly sicrhewch fod yn rhain gryn dipyn yn uwch na'ch lefelau o ddefnydd disgwyliedig os ydych yn bwriadu dewis ISP o'r fath.

## Peidiwch â chael ei dallu gan ffigurau amser mynd

Efallai fod 99% o amser mynd yn swnio'n wych – ond mewn gwirionedd, mae'n golygu na fydd y gwasanaeth ar gael am 4 diwrnod y flwyddyn! Yn ddelfrydol, dylech chwilio am rywbeth sydd hyd yn oed yn nes at amser mynd o 100%.

## Canolbwyntiwch ar eich anghenion presennol ac arfaethedig

Peidiwch â gadael i nodweddion amherthnasol dynnu eich sylw.

## Peidiwch â chymryd yn ganiataol mai'r cwmnïau mawr sydd orau

Nid yw mawr yn golygu gwell o reidrwydd, yn enwedig os yw ISP llai (a mwy lleol efallai) yn gallu cynnig gwasanaeth mwy personol ac ymatebol.

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**